



Ysgol Pentreuchaf

11. Polisi ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol)

1. Gwybodaeth am y ddarpariaeth AY

Egwyddorion

Mae'r ysgol hon yn anelu at sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Mae'r ysgol hon yn anelu at gydweithio'n effeithiol ag asiantaethau statudol ac eraill perthynol i'r plentyn a'i anawsterau.

Mae'r ysgol hon yn anelu at weithio'n agos gyda rhieni er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol i helpu'r plentyn.

Mae'r ysgol hon yn anelu at sicrhau ymateb ysgol gyfan i helpu'r plentyn.

Amcanion

- Sicrhau bod cyfundrefn yn bodoli yn yr ysgol i adnabod yn gynnar y plentyn sydd ag anawsterau a all fod yn llesteirio ei addysg.
- Casglu gwybodaeth ynghyd gan athrawon ac eraill i sicrhau y ceir y ddealltwriaeth orau am natur anawsterau'r plentyn.
- Sicrhau y caiff y ddarpariaeth angenrheidiol ei gwneud ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig.
- Ceisio sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth y rhieni ac eraill mewn perthynas ag adnabod a darparu gwasanaeth.

1.2 Enw'r Cyd-gysylltydd AY a'r Llywodraethwr dynodedig

Y Cyd-gysylltwraig yw **Mrs Einir Owen**

Y Llywodraethwraig sydd â chyfrifoldeb ar gyfer AY yw **Mrs Heuwen Hughes**

Cyfrifoldeb y llywodraethwr dynodedig yw:

- Gwybod am y dogfennau a deddfwriaeth berthnasol.
- Ymgynghori gyda'r Cyd-gysylltydd a gweithredu'r polisi.
- Monitro ar ran y corff Llywodraethol.
- Adrodd i'r corff Llywodraethol.
- Sicrhau y bydd rhieni yn cael gwybodaeth am AY drwy wybodaeth am AY yn llawlyfr yr ysgol.
- Adrodd ar y polisi yn y cyfarfod blynyddol i rieni.

1.3 Y Trefniadau ar gyfer cydgordio'r ddarpariaeth

Y Cyd-gysylltwraig AY sy'n gyfrifol am gydgordio'r gwasanaeth o fewn yr ysgol. Mae'r Cyd-gysylltwraig yn atebol i'r Llywodraethwyr.

Cyfrifoldebau'r Cyd-gysylltwraig yw:

- Gweithredu'r polisi o ddydd i ddydd
- Cydgysylltu â chyd-athrawon a'u cynghori
- Cydgysylltu'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag AY
- Cynnal cofrestr AY yr ysgol a goruchwylio cofnodion pob disgybl ag AY gan gadw ffeil o wybodaeth berthnasol am y plentyn
- Cysylltu gyda rhieni plant ag AY
- Cydgysylltu ag asiantaethau cynnal eraill, e.e., addysg, iechyd, cymdeithasol, gwirfoddol
- Sicrhau adolygu'r trefniadau'n rheolaidd

- Bwydo anghenion hyfforddiant i mewn i gynllun datblygu'r ysgol.
- Hunanarfarnu a monitro y ddarpariaeth o fewn yr ysgol a gweithredu ar y canfyddiadau.
- Bwydo'r canfyddiadau yn dilyn arfarnu a monitro effeithiolrwydd y ddarpariaeth i mewn i'r CDY ac adrodd i'r llywodraethwyr.

1.4 Trefniadau Mynediad

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion ag AY i mewn i'r ysgol drwy :

- gydweithio gyda'r asiantaethau cynnal wrth dderbyn plentyn o'r newydd.
- fynychu cyfarfodydd swyddogol, fel adolygiadau datganiadau, e.e., trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd, symud o ysgol arbennig
- drafodaethau a derbyn gwybodaeth, e.e., symud o ysgol i ysgol
- bwysigrwydd trafod â rhieni
- ymdrin â'r cais mewn dull cadarnhaol ac o fewn yr amgylchiadau sy'n bodoli o fewn yr ysgol ar yr adeg dan sylw.

1.5 Arbenigedd AY ac unrhyw unedau arbennig

Mae staff yr ysgol yn dilyn pob cwrs posibl sydd yn ymwneud ag AY. Cyflogir cymhorthyddion gan y Cyd-Bwyllgor AY i roi sylw i blant sydd ar Ddatganiad a Chynllun 3* a chefnogi gweithgareddau a gynllunwyd gan yr athrawes ddsbarth.

Cyflogir athrawes / cyd-lynydd gan yr ysgol i roi sylw i blant sydd ar gofrestr prydau am ddim, grwpiau targed, AAA a bregus.

Gwneir defnydd o:

- offer technoleg gwybodaeth i atgyfnerthu gwaith yn y pynciau sylfaenol
- Adnoddau athrawon e.e. gan athrawon cynnal ymddygiad, therapyddion lleferydd.

2. *Gwybodaeth ar adnabod, asesu a darparu ar gyfer disgyblion ag AY*

2.1 Prynir llyfrau ac adnoddau pan fydd yr angen yn codi.

2.2 Mae Mrs Einir Owen yn cefnogi plant sydd angen cymorth ychwanegol o fewn y dosbarth/mewn grwpiau bychan fel rhan o'i swydd Athrawes ADY

2.1 *Arbenigedd AY, Adnoddau, darpariaeth/ grwpiau cynhaliaeth*

[Gweler Adroddiadau ADY Blynyddol i'r Llywodraethwyr a 'Datganiad gwariant GAD']

Gwariant yr ysgol ar adnoddau eraill all fod fel a ganlyn yn ôl anghenion y plant-

- offer arbenigol:
- rhaglenni arbenigol:
- cylchgronau/tanysgrifiad gwefan misol:
- dodrefn arbennig:
- newidiadau i'r adeilad, tu mewn ac allan:
- ystafelloedd arbennig o fewn yr ysgol:
- cymorth gan athrawes am ddau sesiwn yr wythnos
- cymorth gan gymorthyddion AY yn bennaf mewn Llythrennedd e.e. darllen, ysgrifennu a sillafu, a chymorth AY ar gyfer problemau ymddygiad.

Mae'r mwyafrif o'r cymorth Mathemateg yn cael ei wneud yn y dosbarth trwy wahaniaethu.

Mae trefniadau adolygu cynnydd y disgyblion ac fe wneir hyn trwy adolygiadau tymhorol / dwy waith y flwyddyn neu yn amlach yn ôl anghenion y plentyn a thrwy drafodaethau manwl rhwng y rhieni a'r athrawon gan roi pwyslais ar gyfraniad y disgybl.

Sicrheir y darperir cyfleoedd i staff dderbyn hyfforddiant ym maes AY.

2.2 Trefniadau adnabod ac asesu; gweithdrefnau adolygu

Yr ydym yn adnabod y disgyblion drwy :

- plant sy'n dod i'r ysgol ac sydd eisoes ar gofrestr AY yr ysgol flaenorol
- tracio cyrhaeddiad plant yn flynyddol er mwyn adnabod tueddiadau
- profion rheolaidd i'r dosbarthiadau
- profion safonedig ar gyfer asesu disgyblion AY – Profion Abertawe, Nfer
- ymdrechwn i adnabod cyrhaeddiad plentyn yn gynnar yn ystod ei yrfa yn yr ysgol er mwyn geithredu yn ddiymdroi ar unrhyw angen penodol.

Mewn sefyllfa lle nodir gwendid yng nghyrhaeddiad plentyn yna, fe'i cyfeirir a gweithredir yn unol a chanllawiau AY y Llywodraeth. Yn naturiol, bydd y plentyn ar gofrestr AY yr ysgol. Yn dibynnu ar ddwystr yr anawsterau byddwn yn :

- nodi pryder wrth y rhieni
- creu rhaglen unigol
- cyfeirio at asiantaeth allanol.

2.3 Gwybodaeth ar adnabod, asesu a darparu ar gyfer disgyblion ag AY

Yn yr ysgol hon yr ydym yn canfod anghenion addysgol yn fuan trwy:

- gael tystiolaeth o arsylwadau ac asesiadau athrawon gan gofio fod pob athro yn athro ar blant AY
- edrych ar berfformiad y disgyblion yn erbyn disgrifiadau lefelau y Cwricwlwm Cenedlaethol
- sicrhau fod dulliau sgrinio ac asesu safonedig yn wybyddus i bob athro.
- fod yn agored a pharod i ymateb pan fo rhieni yn mynegi pryder, pryder y disgybl ei hun neu bryderon gan weithwyr proffesiynol eraill.

2.4 Trefniadau ar gyfer darparu mynediad i ddisgyblion ag AY i gwricwlwm eang a chytbwys, gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol

Bydd pob disgybl AY yma'n cymysgu'n llwyr gyda'r disgyblion eraill ym mhob agwedd o'r cwricwlwm. Os cyfyd anawsterau, yna:

- rhoddir sylw unigol iddynt o fewn y dosbarth
- cynigir cynhaliaeth grŵp bach/grŵp targed
- paratwir gwaith unigol iddynt gan yr athrawes dosbarth
- trefnir iddynt gydweithio â phlant eraill
- ymgynghorir gydag asiantaethau cynhalio
- llunir cynllun addysg unigol i ddisgyblion o fewn Cymorth gan yr Ysgol, Cymorth gan yr Ysgol a Mwy ac ar gyfer disgyblion sydd ar3* neu Ddatganiad.
- cynhelir trafodaethau gyda rhieni
- llunio'r cynllun addysg unigol i ddisgyblion o fewn Cyfnodau Cymorth gan yr ysgol a Chymorth gan yr ysgol a mwy.

2.5 Sut y mae disgyblion ag AY yn cael eu cynnwys:

O gyfeirio at "gynhwysiad" bydd yr ysgol yn darparu cefnogaeth sensitif a phriodol er mwyn sicrhau y bydd y disgybl yn cael ei gynnwys yn holl weithgareddau'r ysgol, fel y bo modd.

Gan fod mwy nag un flwyddyn ysgol oddi mewn i'r dosbarthiadau ymdrechwn i ddarparu gwaith ar o leiaf ddwy lefel. Caiff y manylion yma eu hamlygu mewn amryw o ffyrdd:

- cynlluniau gwaith.
- taflenni cynllunio wythnosol.

- taflenni gwaith y plant.

Defnyddiwn strategaethau amrywiol gyda'r plant sy'n disgleirio er mwyn ceisio ymestyn y plentyn ymhellach e.e.

- cyfeirio at waith ymestynnol mewn llawlyfrau eraill e.e. cynlluniau Mathemateg.
- llunio taflenni gwaith ychwanegol.
- cyfeirio'r plentyn at lyfrau estynedig o fewn llyfrgell yr ysgol.

Drwy weithredu y canllawiau uchod, a thrwy geisio cofio bod pob unigolyn yn wahanol, gobeithiwn ein bod yn sicrhau chwarae teg i'r plant yn ein gofal.

2.6 Y meini prawf ar gyfer arfarnu llwyddiant y polisi AY

- A yw'r polisi'n darparu arweiniad eglur i athrawon yr ysgol?
- A oes newidiadau wedi bod yn y polisi dros y flwyddyn? Os oes, beth ydynt?
- Beth oedd dyraniad cyllidol yr ysgol gogyfer ag AY a sut y defnyddiwyd y cyllid?
- A yw'r trefniadau yn gweithio'n effeithiol?
- Sawl plentyn sydd ar y gofrestr anghenion arbennig?
- Sawl plentyn sydd yn derbyn sylw ychwanegol?
- Beth yw datblygiad y disgyblion yma? A yw'n bosibl mesur y cynnydd yn eu sgiliau?
- A oes athrawon wedi bod ar gyrsiau yn y maes?
- A oes cyfarfodydd wedi eu trefnu ymysg yr athrawon?
- A dderbyniwyd unrhyw sylwadau oddi wrth rieni?
- Beth oedd casgliadau unrhyw arolwg allanol o'r ddarpariaeth AY?
- A ydym yn arfarnu'r polisi yn flynyddol, yn ei ail-gyflwyno i'r Corff Llywodraethol ac yn adrodd i rieni ar ei lwyddiant yn flynyddol?

2.7 Sut mae disgyblion ag AY yn cael eu cynnwys ?

Bydd yr ysgol yn darparu cefnogaeth sensitif a phriodol er mwyn sicrhau y bydd y disgybl yn cael ei gynnwys yn holl weithgareddau'r ysgol, fel y bo modd. Dilynnir Côd Ymarfer Comisiwn Hawliau'r Anabl (Ysgolion), y Ddeddf AY ac Anabledd 2001, a'r Ddeddf Anabledd 2004. Mae'r ysgol wedi creu Cynllun Hygyrchedd sy'n amlinellu sut y sicreir mynediad disgyblion, rhieni ac ymwelwyr ar safle'r ysgol, at y cwricwlwm ac at wybodaeth yr ysgol.

2.8 Trefniadau ar gyfer ystyried cwynion am y ddarpariaeth AY

Gall rhiant sydd â chwyn gysylltu â'r canlynol yn y lle cyntaf:

- y cyd-gysylltydd AY/prifathrawes
- cynrychiolwyr y rhieni ar y Llywodraethwyr
- y Llywodraethwraig penodedig anghenion arbennig

Os nad yw'r ffyrdd yma yn cynnig ateb i'r gwyn yna gall y rhiant ddilyn y sianelau isod:

Y ddogfen *Trefniadau lleol ar gyfer ystyried cwynion a wneir dan Adran 23 y Ddeddf Diwygio Addysg* sydd ar gael ym mhob ysgol.

3. Gwybodaeth am bolisiau staffio a phartneriaeth â chyrrff allanol

3.1 Trefniadau'r ysgol ar gyfer hyfforddiant mewn swydd AY

- y cyd-gysylltydd i adnabod anghenion hyfforddi gan fwydo i mewn i'r broses o ddatblygu'r ysgol, e.e. Cynllun Datblygu
- yn y sector cynradd gall yr ysgol gyflwyno cais i Bwyllgor HMS y dalgylch
- gall ysgolion unigol wneud cais am gymorth hyfforddi oddi wrth Gwmni Cynnal defnyddio cyllid ysgol neu fel rhan o'r cytundeb gyda Chwmni Cynnal.

3.2 Trefniadau ar gyfer rhanddeiliaid allanol.

Mae'r gwasanaethau cynnal ar gael drwy'r Cyd-Bwyllgor. Darperir gwasanaeth gan:

- y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol
- athrawon ymgynghorol arbenigol - nam ar y golwg, nam ar y clyw, nam corfforol, cyn-ysgol

3.3 Trefniadau ar gyfer partneriaeth â rhieni

Mae'r ysgol hon yn cydnabod y dylanwad holl bwysig sydd gan rieni ar gynnydd addysgol eu plant. Er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol bydd yr ysgol hon yn annog cydweithrediad gan y rhieni:

- talu sylw proffesiynol i bryderon rhieni gan sicrhau bod yr ysgol yn trafod y pryderon gyda'r rhiant am amser rhesymol ac ar yr amser cyfleus cyntaf
- cysylltu â'r rhieni wrth gofrestru'r plentyn ar unrhyw un o'r cyfnodau gan ofyn am eu barn a'u sylwadau
- rhoi lle amlwg i gymorth y rhiant lle bo hynny'n briodol
- rhoi sylw proffesiynol i farn y rhieni wrth lunio cynlluniau addysgol unigol
 - rhannu gwybodaeth am ffynonellau cymorth
 - sicrhau bod y polisi hwn yn ei gyfanrwydd ar gael i'r rhieni ei ddarllen
 - cynnwys rhieni mewn adolygiadau rheolaidd ar eu plentyn

3.4 Cysylltiadau ag ysgolion prif-lif eraill ac ag ysgolion arbennig, gan gynnwys y trefniadau pan fydd disgyblion yn newid neu'n gadael ysgol

Anfonir unrhyw wybodaeth berthnasol pan fydd plentyn yn:

- symud o ysgol prif-lif i ysgol prif-lif arall - cysylltir am fanylion, cysylltu â'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Arbennig
- symud o ysgol gynradd i uwchradd - natur y cyswllt, trosglwyddo gwybodaeth, mynychu cyfarfodydd adolygu. Mi fydd cyd-gysylltydd cynradd/uwchradd yn ymweld a'r ysgol yn nodi anghenion, arsylwi ar lyfrau'r plant ac yn cynnal cyfweiliad byr a hwy.
- symud i ysgol arbennig neu yn ôl i'r prif-lif - bydd trafodaethau rhwng yr ysgolion a'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Arbennig
- Cydweithir rhwng ysgolion, cyfarfodydd a'r unedd AY leol. Trafodir gwahanol agweddau o AY mewn cyfarfodydd dalgylch.

3.5 Cysylltiadau â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, y gwasanaeth lles addysg a chyrrff gwirfoddol

- **Gwasanaethau Iechyd**
Mae'r nyrs ysgol yn ymwelydd rheolaidd ac yn bwynt cyswllt â phersonél eraill.
- **Gwasanaethau Cymdeithasol**
Gellir ffonio'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar unrhyw adeg os oes pryder ynghylch plentyn.
- **Gwasanaeth Lles Addysg**
Yn aml mae'r Swyddog Lles yn ymwelydd rheolaidd â'r ysgol a defnyddir y swyddog i ymweld â chartrefi lle bo angen. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig arweiniad a chymorth gan gyfeirio'r ysgol at asiantaethau eraill.
- **Cyrrff Gwirfoddol**
Cynhwysir rhestr o ffynonellau cymorth yn y ffeil "Anghenion Addysgol Arbennig - Deddf Addysg 1996".

Adolygir Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____